Hawdd ei Ddeall

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

# Ein gwaith ar gydraddoldeb rhwng 2023 a 2024

## Beth rydyn ni wedi'i wneud i gyrraedd ein nodau




Llun gan: Polly Thomas

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Gyngor Celfyddydau Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Adroddiad Blynyddol 2023-2024 Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024**'.

**Mawrth 2025**


Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Efallai y byddwch chi angen help i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Mae'r geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn gallu bod yn anodd eu deall. Mae beth mae'r geiriau mewn glas yn ei feddwl ar **dudalen 24**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Cyngor Celfyddydau Cymru**. I ddarganfod mwy cysylltwch â:

**Gwefan:** www.arts.wales

**E-bost:** grants@arts.wales

**Ffôn:** 03301 242733

Mae Hawdd ei Ddeall Cymru wedi gwneud y ddogfen yma yn hawdd ei deall gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

Rhif trwydded Photosymbols 403527247

# Cynnwys


**Cydraddoldeb a ni** .......... **4**

Ein cynllun cydraddoldeb .......... 6

**Beth rydyn ni wedi'i wneud rhwng 2023 a 2024** .......... **9**

**Portffolio Celfyddydau Cymru** .......... **14**

**I bwy rydyn ni wedi rhoi arian** .......... **17**

**Ein tîm** .......... **19**

**Pwyllgor Cydraddoldeb Strategol** .......... **23**

**Geiriau Anodd** .......... **24**

# Cydraddoldeb a ni

Ni ydy Cyngor Celfyddydau Cymru. Rydyn ni'n rhoi arian i gefnogi'r celfyddydau yng Nghymru.



Yng Nghymru mae'r gyfraith yn dweud bod rhaid i sefydliadau fel ni gefnogi **cydraddoldeb**.


> Mae **cydraddoldeb** yn meddwl trin pobl yn gyfartal ac yn deg.



Mae'r gwaith yma yn bwysig i ni. Rydyn ni eisiau i'r celfyddydau fod i bawb yng Nghymru.




Mae'r adroddiad yma am y gwaith rydyn ni wedi'i wneud ar gyfer **cydraddoldeb** yn 2023 a 2024.




Dydy rhai pobl ddim yn cymryd rhan yn y celfyddydau cymaint ag eraill.



Rydyn ni eisiau helpu pawb i greu, gwylio a gweithio yn y celfyddydau.

# Ein cynllun cydraddoldeb



Yn 2020, fe wnaethon ni gynllun mawr am beth fydden ni yn ei wneud am gydraddoldeb rhwng 2020 a 2024. Mae gan y cynllun yma **5 prif nod**. Dyma nhw:



1. Gweithio gydag eraill a chymunedau Dysgu oddi wrthyn nhw.



2. Gwneud yn siŵr bod mwy o bobl sy'n gweithio yn y celfyddydau yn dod o grwpiau â **nodweddion gwarchodedig**.

Mae **nodweddion gwarchodedig** yn ymwneud â chyfraith am drin pobl yn gyfartal ac yn deg. Mae rhai grwpiau o bobl yn gallu cael eu trin yn annheg oherwydd pethau fel:

- Oed
- Anabledd
- Rhywedd
- Bod yn feichiog neu gael babi
- Hil
- Crefydd neu gred
- Rhyw
- Cyfeiriadedd rhywiol
- Bod yn briod neu mewn partneriaeth sifil.



3. Gweithio i wneud yn siŵr bod pobl yn cael eu talu'n gyfartal ac yn deg.



4. Helpu mwy o bobl amrywiol i gael cyllid i wneud eu celf eu hunain.

> Mae **amrywiol** yn meddwl nad ydyn ni i gyd yr un fath. Er enghraifft, pobl:
>
> - Yn dod o wahanol gefndiroedd a diwylliannau.
> - Gyda galluoedd gwahanol.
> - Yn credu pethau gwahanol.



5. Gwneud yn siŵr bod mwy o bobl **amrywiol** yn gallu ymuno yn y celfyddydau.



Fe wnaethon ni ddweud hefyd y bydden ni'n gweithio'n galed i gefnogi pobl i gymryd mwy o ran. Yn enwedig o'r grwpiau yma:



- Pobl o gefndiroedd **ethnig amrywiol**

> Mae **ethnig amrywiol** yn meddwl pobl sy'n dod o wledydd neu ddiwylliannau sydd ddim yn wyn nac yn Brydeinig. Neu eu teuluoedd wedi dod oddi wrthynt.



- Byddar



- Anabl



- **Niwrowahanol**

> Mae **niwrowahanol** yn meddwl bod ymennydd rhai pobl yn gweithio mewn gwahanol ffyrdd. Er enghraifft, mae pobl **niwrowahanol** yn gallu prosesu gwybodaeth yn wahanol ac mae ganddyn nhw sgiliau gwahanol.

# Beth rydyn ni wedi'i wneud rhwng 2023 a 2024

## Adolygiad Buddsoddi yn y Celfyddydau



Roedd hwn yn ddarn mawr o'n gwaith. Roedd wedi cael ei wneud i edrych ar sut rydyn ni'n gwneud tuag at wella **cydraddoldeb**.




Fe wnaethon ni weld bod llawer mwy o bobl wedi gwneud cais am gyllid. Ac mae llawer mwy yn derbyn arian.




Mae hyn oherwydd ein bod ni wedi newid sut rydyn ni'n derbyn ceisiadau. Rydyn ni'n cynnwys sain a ffilm. Roedd hyn yn ei gwneud hi'n haws i bobl gydag anghenion gwahanol wneud cais.



Nawr mae gennym ni lawer mwy o **amrywiaeth** yn y celfyddydau yng Nghymru. Er enghraifft, gan sefydliadau fel Fio, Urban Circle, Taking Flight ac eraill.



Rydyn ni hefyd wedi darganfod mwy o bethau mae angen i ni eu gwneud i wella. Mae hyn yn meddwl cael mwy o artistiaid anabl yn y theatr yng Nghymru. Rydyn ni wedi rhoi 1.4 miliwn o bunnoedd tuag at hyn.



Roedden ni hefyd yn meddwl llawer am gymunedau ar draws Cymru. Rydyn ni wedi rhoi arian i wahanol gymunedau. Er enghraifft, Casnewydd, Wrecsam, Sir Benfro ac eraill.



Ond mae yna ardaloedd o hyd mae angen i ni roi mwy o arian hefyd. Rydyn ni'n addo gweithio gyda mwy o gynghorau lleol yng Nghymru.



Roedd llawer o sefydliadau'n meddwl llawer am brofiadau grwpiau **amrywiol** o bobl yn eu ceisiadau. Roedd rhain yn sefyll allan fel y gorau. Yn enwedig pan roedden nhw'n meddwl am bobl gyda mwy nag un angen.





## Camau Creadigol

Dyma gronfa fawr sy'n cefnogi artistiaid a sefydliadau celfyddydol **amrywiol**.




Fe wnaeth 8 sefydliad a 63 o artistiaid dderbyn arian drwy'r cynllun yma.




## Cynllun Gweithredu Ehangu Ymgysylltu

Dyma gynllun sy'n rhedeg rhwng 2022 a 2025. Dyma rhywfaint o'r gwaith sydd wedi cael ei wneud:



- Gwneud yn siŵr bod lleisiau mwy **amrywiol** yn cael eu clywed.



- Gwneud yn siŵr bod lleoedd fel amgueddfeydd yn siarad am y pethau drwg sydd wedi digwydd yn y gorffennol. Er enghraifft, caethwasiaeth.



- Gwneud yn siŵr bod pobl o gefndiroedd **amrywiol** yn cael eu cynnwys.



- Ymchwil i wneud rheolau am fynediad i leoliadau celfyddydol ac amgueddfeydd. Mae UCAN Productions ac Owls Productions wedi gwneud rhai ffilmiau am hyn.


**Hynt**

Cynllun ydy **Hynt** sy'n caniatáu i bobl ag anghenion mynediad gael cefnogaeth i fynd i leoliadau a digwyddiadau'r celfyddydau.




Ym mis Ionawr 2024 roedd dros 31 mil o gardiau **Hynt** wedi'u dosbarthu.

# Adroddiad Asiant dros Newid 2021 – 2024




Dyma blwyddyn 3 rôl yr **Asiant dros Newid**. Mae rhan o'r swydd yma yn edrych ar beth mae'r **Cynllun Gweithredu Ehangu Ymgysylltu yn ei wneud**.



Maen nhw hefyd wedi bod yn cefnogi cerddorion Du. A chefnogi cerddorion drwy raglen o'r enw **POWER UP®**.



Mae LEMFRECK yn artist sydd wedi cael cefnogaeth fel rhan o hyn.



Mae grŵp wedi cael ei sefydlu i gefnogi'r gwaith yma yn y dyfodol. Ei enw ydy **Grŵp Gweithredu Cerddoriaeth Ddu Cymru**.

# Portffolio Celfyddydau Cymru



Dyma'r grŵp o 64 sefydliad yng Nghymru sy'n cael arian gennym ni.



Mae'r rhan yma am y bobl sydd yn cael eu cyflogi gan Bortffolio Celfyddydau Cymru. Mae hyn er mwyn i ni allu dysgu am eu **cydraddoldeb** a'u **hamrywiaeth**.

Maen nhw yn cyflogi tua 2,000 o bobl. Allan o'r rhif hwn:



- Roedd tua 130 yn dweud eu bod yn fyddar neu'n anabl.



- Roedd tua 140 yn dod o gefndir **ethnig amrywiol**.



- Ar gyfer **LHDTQ+**, roedd tua 200 yn lesbiaidd, hoyw neu ddeurywiol. Roedd 11 yn draws.

> Mae **LHDTQ+** yn sefyll am grwpiau lesbiaidd, hoyw, deurywiol, trawsryweddol, queer a grwpiau eraill.
>
> Dyma gymuned o bobl sy'n rhannu profiadau oherwydd pwy ydyn nhw a phwy maen nhw'n eu caru.



- Roedd tua 400 o bobl dros 50 oed.



- Roedd tua 270 o bobl rhwng 16 a 25 oed.



- Roedd gan tua 200 gred grefyddol.



- Roedd 29 o fenywod yn feichiog neu ar **absenoldeb mamolaeth**.

Mae **absenoldeb mamolaeth** yn meddwl cymryd amser i ffwrdd o'r gwaith ar ôl cael babi.



Mae'r niferoedd yma i gyd yn is nag mewn blynyddoedd eraill.

# I bwy rydyn ni wedi rhoi arian



Rydyn ni'n ariannu prosiectau ar gyfer pobl fyddar neu anabl. Roedden nhw wedi cael mwy o arian na'r flwyddyn 2022 i 2023.



Rydyn ni'n ariannu prosiectau ar gyfer pobl **ethnig amrywiol**. Roedd y cyllid yn llai na'r llynedd 2022-2023.



Roedd prosiectau Plant a Phobl Ifanc hefyd wedi cael arian. Ond roedd yn llai nag roedden nhw wedi ei gael yn y flwyddyn 2022 i 2023.



Fe wnaeth prosiectau Pobl Hŷn gael tua hanner arian Plant a Phobl Ifanc. Ond fe wnaethon nhw gael mwy nag yn 2022 i 2023.




Roedd prosiectau ar gyfer pobl **LHDTQ+** wedi cael llai o arian. Ond roedden nhw wedi cael mwy o arian na’r flwyddyn 2022 i 2023.



Roedd dros hanner y bobl oedd wedi derbyn arian yn fenywod. Ond roedden nhw wedi cael llai o arian na’r flwyddyn 2022 i 2023.



Roedd dynion wedi cael mwy o arian na’r flwyddyn 2022 i 2023.

# Ein tîm



Dyma wybodaeth am staff sy'n gweithio i ni.



Rydyn ni wedi newid ein ffurflen **cydraddoldeb**. Does dim cwestiwn am pa fath o anabledd sydd gan rywun bellach.

## Rhyw a Pherthnasoedd



Roedd tua 7 o bob 10 aelod o staff yn fenywod. Roedd tua 3 o bob 10 aelod o staff yn ddynion.



Fe wnaeth rhai pobl ddewis **anneuaidd**, **arall** neu **dim ateb**.

Mae **anneuaidd** yn meddwl person nad ydy ei rywedd yn cyd-fynd â syniadau arferol o beth sydd yn wrywaidd a beth sy'n fenywaidd.



Roedd llai o bobl yn briod nag yn y rhan fwyaf o flynyddoedd o'r blaen. Ac roedd llai o bobl yn dweud eu bod yn sengl.



Roedd ychydig yn llai o bobl wedi disgrifio eu hunain fel **heterorywiol** o'i gymharu â blynyddoedd eraill.

Mae **heterorywiol** yn meddwl menyw sy'n ffansïo ac yn caru dynion neu dyn sy'n ffansïo ac yn caru menywod.




Dydyn ni ddim wedi rhoi rhifau ar gyfer pobl **LHDTQ+**. Mae hyn oherwydd bod y niferoedd yn fach, ac efallai na fydd pobl eisiau cael eu hadnabod.

## Cenedligrwydd



Roedd yr un nifer o bobl â'r flwyddyn ddiwethaf yn dweud eu bod nhw'n Gymry. Roedd chydig yn fwy na'r flwyddyn ddiwethaf yn dweud eu bod nhw'n Brydeinig. Dywedodd tua 10 o bob 100 o bobl arall. Doedd rhai ddim wedi ateb.



## Crefydd

Fe wnaeth mwy o bobl ddewis arall fel y math o grefydd. Roedd llai o bobl yn dweud Cristion na'r flwyddyn ddiwethaf. Doedd llawer o bobl ddim wedi rhoi'r wybodaeth yma.



## Anabledd

Doedd y rhan fwyaf o bobl ddim eisiau ateb y cwestiwn yn gofyn am fod yn anabl. O'r rhai oedd wedi ateb, roedd ychydig yn llai yn dweud ie na'r flwyddyn ddiwethaf.



## Oed

Yr ystod oedran mwyaf poblogaidd ar gyfer staff ydy rhwng 40 a 49 oed. Mae hyn yr un fath â blynyddoedd eraill.



Pobl o dan 20 oed ydy'r nifer isaf o oedrannau. Mae niferoedd tebyg ar gyfer pobl dros 60 oed.

## Cyflog




Mae'r cyfraddau cyflog ar gyfer staff gwrywaidd a staff benywaidd yn gallu bod yn ddryslyd. Mae'n edrych fel bod staff gwrywaidd yn tueddu i ennill mwy o arian na staff benywaidd.

Ond mae dau reswm am hyn:




- Mae llawer mwy o staff benywaidd newydd. Mae'r holl staff newydd yn dechrau ar gyflog is. Mae hyn yn cynyddu dros amser.




- Mae llawer o staff benywaidd yn rhan-amser. Mae hyn yn ei gwneud i edrych fel bod mwy o fenywod yn ennill llai.


# Pwyllgor Cydraddoldeb Strategol



Dyma grŵp o'n gweithwyr sy'n edrych ar y gwaith rydyn ni'n ei wneud ar **gydraddoldeb**.



Maen nhw yn edrych i weld os ydyn ni'n cyrraedd ein nodau ac yn adrodd ar beth rydyn ni wedi'i wneud.




Ond doedd y grŵp ddim yn gallu cyfarfod y flwyddyn yma, am sawl rheswm.Felly, fe wnaeth Cadeirydd y grŵp edrych ar y cynnydd  roedden ni wedi'i wneud ac ysgrifennu adroddiad.




Rydyn ni hefyd yn edrych i weld ein bod yn dilyn deddf o'r enw **Dyletswydd y Sector Cyhoeddus**. Mae'r rheolau yma ar gyfer trin pobl yn gyfartal ac yn deg.



Rydyn ni wedi gweithio'n agos gyda llawer o sefydliadau i helpu i wella **cydraddoldeb** gyda'n gilydd. Rydyn ni eisiau i'n gwaith wneud gwahaniaeth mawr yn y dyfodol.

# Geiriau Anodd

### Absenoldeb mamolaeth

Mae hyn yn meddwl cymryd amser i ffwrdd o'r gwaith ar ôl cael babi.

### Anneuaidd

Mae anneuaidd yn meddwl person nad ydy ei rywedd yn cyd-fynd â syniadau arferol o beth sydd yn wrywaidd a beth sy'n fenywaidd.

### Amrywiol

Mae amrywiol yn meddwl nad ydyn ni i gyd yr un fath. Er enghraifft, pobl:

- yn dod o wahanol gefndiroedd a diwylliannau
- gyda galluoedd gwahanol
- yn credu mewn gwahanol bethau.

### Cydraddoldeb

Mae hyn yn meddwl trin pobl yn gyfartal ac yn deg.

### Ethnig amrywio

Mae ethnig amrywiol yn meddwl pobl sy'n dod o wledydd neu ddiwylliannau sydd ddim yn wyn nac yn Brydeinig. Neu eu teuluoedd wedi dod oddi wrthynt.

### Heterorywiol

Mae hyn yn meddwl menyw sy'n ffansïo ac yn caru dynion neu ddyn sy'n ffansïo ac yn caru menywod.

## LHDTQ+

Mae LHDTQ+ yn sefyll am grwpiau lesbiaidd, hoyw, deurywiol, trawsryweddol, queer a grwpiau eraill.

Dyma gymuned o bobl sy'n rhannu profiadau oherwydd pwy ydyn nhw a phwy maen nhw'n eu caru.

## Niwrowahanol

Mae niwrowahanol yn meddwl bod ymennydd rhai pobl yn gweithio mewn gwahanol ffyrdd. Er enghraifft, mae pobl niwrowahanol yn gallu prosesu gwybodaeth yn wahanol ac mae ganddyn nhw sgiliau gwahanol.

## Nodweddion gwarchodedig

Mae nodweddion gwarchodedig yn ymwneud â chyfraith am drin pobl yn gyfartal ac yn deg. Mae rhai grwpiau o bobl yn gallu cael eu trin yn annheg oherwydd pethau fel:

- Oed
- Anabledd
- Rhywedd
- Bod yn feichiog neu gael babi
- Hil
- Crefydd neu gred
- Rhyw
- Cyfeiriadedd rhywiol
- Bod yn briod neu mewn partneriaeth sifil.